



Goruchwyliaeth Diogelwch Gwylwyr Lefel 3 (Rhan-Amser)

Trwy gwblhau'r cymwysterau hyn, bydd dysgwyr yn bodloni gofynion y diwydiant i gyflawni rolau goruchwyliol o fewn stiwardio a diogelwch gwylwyr.

Diben y cymwysterau hyn yw cadarnhau cymhwysedd galwedigaethol a darparu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o Ddiogelwch Gwylwyr i ddysgwyr. Maent wedi'u mapio i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Skills Active (NOS) ar gyfer Diogelwch Gwylwyr 2019.

Gofynion Mynediad

Rhaid i ddysgwyr fod yn 16+ oed.

Cyn y gellir ardystio dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid iddynt gwblhau:

- Cwrs hyfforddi cynnal bywyd sylfaenol sy'n cynnwys: CPR, safle adfer, defnyddio diffibriliwr a sut i reoli gwaedu.
- E-ddysgu Ymwybyddiaeth o Weithredu Gwrthderfysgaeth (ACT) (Tystysgrif) neu gwrs Hyfforddiant Strategol Gweithredu Gwrthderfysgaeth (ACT) (Tystysgrif Estynedig)

Rhagolygon Gyrfa

Mae cwblhau'r cymwysterau hyn yn rhoi mynediad i swyddi stiwardio a diogelwch gwylwyr goruchwyliol gan gynnwys ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth, gwyliau a charnifalau.

Modiwlau'r cwrs

Er mwyn cyflawni Tystysgrif Lefel 3 YMCA mewn Goruchwylio Diogelwch Gwylwyr rhaid i ddysgwyr gwblhau pum uned orfodol a dwy uned ddewisol.

Mae modiwlau gorfodol y cwrs yn cynnwys:

- Paratoi stiwardiaid a lleoliadau ar gyfer digwyddiadau gwylwyr
- Rheoli a chynnal stiwardiaeth mewn ardaloedd dynodedig
- Rheoli gwybodaeth ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar gyfer digwyddiadau gwylwyr
- Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda rhanddeiliaid
- Monitro a datrys problemau gwasanaethau cwsmeriaid



GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Mae modiwlau dewisol y cwrs yn cynnwys:

- Helpu i reoli a datrys gwrthdaro*
- Delio â digwyddiadau mewn digwyddiadau gwylwyr*
- Rheoli adnoddau ar gyfer diogelwch a diogeledd mewn digwyddiadau gwylwyr
- Rheoli'r defnydd effeithlon o adnoddau
- Datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd

*Argymhellir yn gryf mai dim ond dysgwyr nad ydynt wedi cwblhau cymhwyster lefel 2 mewn diogelwch gwylwyr yn flaenorol sy'n dewis yr unedau hyn.

Asesiad

Portffolio o dystiolaeth
Arddangosiad ymarferol

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS

1Y

business@nptcgroup.ac.uk | www.nptcgroup.ac.uk/business

 [nptc_business](https://twitter.com/nptc_business)

 [nptcbusiness](https://www.facebook.com/nptcbusiness)

 [business-nptcgroup](https://www.linkedin.com/company/business-nptcgroup)